

DOLEN Y TAB – 38

15–16 Ionawr 2021

OEDFA RITHIOL 17 IONAWR

Oedfa Deuluol – yng nghwmni'r Teulu Morse

YR OEDFAON NESAF

Ionawr

24 Y Parchg. Gethin Rhys

31 Emlyn Davies

Chwefror

7 Pentref Pentyrch

14 Y Parchg. Aled Edwards

Hefyd ar 17 Ionawr . . .

11.00

S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yng ngofal y Parchg. Evan Morgan, Caerdydd

12.00

Oedfa Radio Cymru

Y Parchg. Judith Morris, Penrhyn-coch

12.30 **Radio Cymru**

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

COFIWCH WYLIO

Ar *Dechrau Canu Dechrau Canmol* am 7.30 nos Sul fe fydd Nia Roberts yn cwrdd ag un o aelodau Capel y Tabernacl, sef Carol Hardy. Bydd Carol yn sôn am ei brwydr i drechu ei chaethiwed i alcohol, a bellach mae hi'n cynnig cymorth ac ysbrydoliaeth i eraill drwy ei gwaith yng nghanolfan adfer y Stafell Fyw.

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees. Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn.

Diolch yn fawr.

Gair Byr o'r Bwrdd

Yng nghyfarfod mis Ionawr o Fwrdd y Cyfarwyddwyr – a gynhaliwyd yn llwyddiannus iawn dros *Zoom* am y tro cyntaf – enwebwyd Edwyn Evans i wasanaethu fel Cadeirydd am y flwyddyn. Wedi iddo dalu teyrnged i'w ragflaenydd, Eluned Davies-Scott, am ei harweiniad doeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, diolchodd i'r aelodau am y fraint ac am eu hymddiriedaeth ynddo. Rwy'n siŵr ein bod fel aelodau'r eglwys am estyn ein llongyfarchiadau i Edwyn a dymuno'r gorau iddo yn ystod ei dymor yn y gadair.

Ei dasg gyntaf yn y cyfarfod oedd cael y pleser o groesawu'r pedwar newydd a dderbyniwyd yn aelodau o'r Bwrdd yn y Cwrdd Blynyddol ddiwedd Tachwedd, sef Hefin Gruffydd, Bethan Guilfoyle, Helen Middleton ac Iwan Rowlands.

BEDYDDIADAU

Aeth naw mis heibio ers i ni golli Jane Eryl Jones mor ddisymwth ganol mis Ebrill y llynedd. Bydd holl aelodau'r Tabernacl yn cofio am ei chyfraniad gwerthfawr i nifer o agweddau o waith yr eglwys, ond ei phrif gymwynas oedd y gofal a'r urddas a osododd wrth weinyddu'r bedyddiadau yn y capel. Rydym yn byw mewn gobaith y bydd modd i'r gynulleidfa ail-ymgynnull yn y Tabernacl o fewn ychydig fisoedd, ac felly mae'r Bwrdd yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw un yn ein plith sy'n fodlon gofalu am y gwaith pwysig ond pleserus hwn. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) os oes diddordeb gennych neu os hoffech dderbyn rhagor o fanylion.

Tafod y Tab

Daeth yr amser unwaith yn rhagor i wahodd cyfraniadau i rifyn mis Ionawr o *Tafod y Tab*. Yn ôl ein harfer byddwn yn croesawu adroddiadau a lluniau ac unrhyw eitemau eraill fyddai o ddiddordeb i'w cynnwys yn y *Tafod*.

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau neu awgrymiadau at Gwilym ac Eleri (gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205 **erbyn Dydd Iau 21 Ionawr.**

Y CYFRIFIAD

Ymhen llai na deg wythnos, bydd rheidrwydd cyfreithiol arnom i lenwi ffurflen y cyfrifiad unwaith yn rhagor. Hynny yw, os na wneir penderfyniad yn fuan i'w ohirio oherwydd y pandemig . . .



Mosaic o'r G14eg yn dangos Mair a Joseff yn ymweld â Bethlehem adeg y cyfrifiad.

Gyda rhai eithriadau prin iawn, megis ym 1941, mae cyfrifiad wedi ei gynnal yng Nghymru a Lloegr bob deng mlynedd yn ddi-dor ers 1801. Ond i'r sawl a fynychodd yr Ysgol Sul yn blentyn, a chlywed stori geni'r Iesu, mae'n gwbl amlwg bod cynnal cyfrifiad yn rhan o'r drefn ers o leiaf 2,000 o flynyddoedd. Wedi'r cyfan, yn ôl yr hanes fel yr adroddir ef yn Efengyl Luc, dyma'r eglurhad a roddir pam y bu'n rhaid i Mair a Joseff deithio o Nasareth i Fethlehem, taith o tua 70 milltir, a hithau'n feichiog. Ond mewn gwirionedd gellir olrhain yr arfer o gadw cyfiri o nifer y trigolion a'u heiddo yn ôl lawer iawn pellach na dyddiau'r Iesu. Y cymhelliad gwreiddiol dros eu cynnal oedd er mwyn defnyddio'r wybodaeth i godi arian trwy osod treth ar eiddo fyddai'n galluogi brenhinoedd i godi byddin i ymladd rhyfeloedd. Ymhlith y rhai fu'n llwyddiannus iawn yn codi trethi yn y modd hwn roedd yr Ymerodraeth Rufeinig.

Cyfrifiadau Ddoe

I haneswyr cymunedol a theuluol, a'r rhai hynny sy'n ymddiddori mewn hel achau, mae gwerth amhrisiadwy mewn pori trwy gofnodion cyfrifiadau'r gorffennol. Yn yr oes ddigidol hon, gwneir defnydd helaeth iawn o wefannau megis *My Ancestry* i olrhain hynt a helynt ein hynafiaid yn ôl o leiaf i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny heb symud o'ch cartref. Am resymau preifatrwydd, rhaid aros am o leiaf 100 mlynedd cyn cael gweld cofnodau cartrefi unigol yn hytrach na dadansoddiadau o'r boblogaeth gyfan fesul ward. Oherwydd cymhlethdod yr wybodaeth a gasglwyd yng nghyfrifiad 1921, bydd raid aros yn amyneddgar hyd 2022 cyn bydd y data fesul cartref ar gael.

Un dadansoddiad sydd o ddiddordeb arbennig i ni fel Cymry Cymraeg yw'r cipolwg a gawn bob deng mlynedd o nifer y siaradwyr Cymraeg, ac edrychwn ymlaen ymhen rhyw flwyddyn a hanner

at weld cynnydd pellach ymhlith y to ifanc pan gyhoeddir yr adroddiad ar y cyfrifiad iaith.

Cyfrifiadau Heddiw

Erbyn heddiw, fel y gwyyddom, mae dulliau mwy soffistigedig o lawer i godi trethi ar incwm ac eiddo trigolion. Serch hynny, credir fod lle o hyd i gynnal cyfrifiad cynhwysfawr o gartrefi ar yr un noswaith gan ei fod yn ddull dibynadwy o gasglu data am ddemograffeg ac amgylchiadau trigolion ym mhob rhan o'r deyrnas. Yn ddamcaniaethol, bydd modd i lywodraethau canolog a lleol ddefnyddio'r data wrth rannu eu hadnoddau rhwng anghenion tai, addysg, iechyd, trafndiaeth ac yn y blaen. Gallwch chi benderfynu drosoch eich hunain i ba raddau mae llywodraethau'r deugain mlynedd diwethaf wedi llwyddo i ddefnyddio'r data yma i sicrhau mwy o degwch cymdeithasol i gymunedau.

Amcangyfrifir y bydd y gost o gynnal y cyfrifiad eleni o gwmpas £1biliwn – bron ddwywaith y gost ddeng mlynedd yn ôl. Does ryfedd felly bod pennaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ymchwilio ar hyn o bryd i ddulliau amgen o gasglu'r data sydd ei angen ar y wladwriaeth heb fynd i'r gost o gynnal cyfrifiad yn y dyfodol. Un newid mawr y tro hwn yw bod disgwyl i ganran uchel lenwi'r ffurflen ar-lein yn hytrach nag ar bapur. Felly cofiwch, pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen ddydd Sul 21 Mawrth, efallai mai dyma'r tro olaf y byddwch yn mynd trwy ddefod y bu eich hynafiaid yn rhan ohoni am dros ddau can mlynedd.

RHANDIROEDD

Estynnir gwahoddiad i aelodau o'r Tabernacl roi cynnig am un o'r lleiniau newydd sydd ar gael bellach yn rhandir y capel, yn dilyn yr holl waith a wnaed i gymhennu tiroedd y capel. Mae'r cynnig hwn wedi ei gyfyngu yn y lle cyntaf i aelodau'r capel yn unig, ond os na ddangosir diddordeb ymhlith yr aelodau yna fe estynnir y gwahoddiad i'r gymuned ehangach ym mhentref Efail Isaf.

Os oes gennych ddiddordeb, neu i gael rhagor o fanylion, cysylltwch naill ai gydag Emlyn 'Pens' Jones (pens37@outlook.com / 07881 501137) neu Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk / 07974 186596).

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenngwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.